



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Allied Health-Services - Gogledd Cymru

**Allied Health-Services
Llawr Cyntaf, Uned 6 Llys Onnen
Parc Busnes Parc Menai
Bangor
LL57 4DF**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/06/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Allied Health-Services - Gogledd Cymru

| | |
|--|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Allied Health-Service Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 1 Mawrth 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

Crynodeb

Caiff y bobl gynnis cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn hyrwyddo dewis, rheolaeth, annibyniaeth ac ymdeimlad o berthyn. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y ffordd yr hoffai'r bobl gael eu cefnogi. Dywedodd y bobl wrthym am y swyddi sydd ganddynt, y cyrsiau y maent yn ymgymryd â nhw, y clybiau cymdeithasol y maent yn eu mynychu a'u cynlluniau ar gyfer eu gwyliau a'u dyfodol.

Mae'r rheolwyr a'r staff cymorth yn adnabod y bobl yn dda ac yn deall eu hanghenion cymorth. Maent yn cydweithio er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael gofal parhaus a chymorth gan wynebau cyfarwydd a bod eu dewisiadau yn cael eu parchu. Mae'r rheolwyr yn arwain drwy esiampl ac yn darparu cymorth uniongyrchol i'r bobl pan fo angen. Dywedodd y staff cymorth wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu bod yn mwynhau gweithio i'r gwasanaeth a'u bod wedi cael yr hyfforddiant cywir. Mae gan y gwasanaeth Unigolyn Cyfrifol newydd sy'n goruchwyllo'r lleoliad yn dda ac a fydd yn cyflwyno systemau a phrosesau newydd i wella'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu ymhellach.

Llesiant

Mae'r bobl mewn rheolaeth, maent yn cael eu clywed a'u cynnwys yn eu cymorth a chaiff eu dewisiadau eu parchu. Mae'r bobl yn cyfrannu at eu cynlluniau personol; caiff canlyniadau eu cyflawni a dengys y cofnodion sut batrwm fydd i bob diwrnod. Mae'r bobl yn siarad am eu cartrefi eu hunain, maent yn hoff o ble maent yn byw, mae ganddynt eu hallwedd a'u ceir eu hunain neu gallant ddefnyddio'r bws. Maent yn fodlon ar y cymorth a gânt a gallant siarad â'r staff cymorth neu staff y swyddfa os bydd ganddynt unrhyw broblemau. Mae'r bobl hefyd yn hoff o ymweld â'r swyddfa i gael diod, byrbryd a sgwrs. Caiff dewisiadau personol eu parchu a rhoddir ystyriaeth i baru'r bobl â'r staff cymorth yn seiliedig ar ddiddordebau a rennir a nodweddion personol.

Caiff anghenion llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl eu diwallu. Mae'r bobl yn cael eu meddyginiaeth ac yn cael cymorth i gadw'n iach ac i ddewis opsiynau a ffordd o fyw iachach. Mae'r rheolwyr a'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn rhoi cyngor a chymorth os bydd eu hanghenion yn newid. Mae sylwadau gweithwyr proffesiynol am eu profiadau o'r gwasanaeth yn gadarnhaol. Dywedwyd wrthym fod y staff yn ymgysylltu'n dda â nhw, mae ganddynt gydberthynas dda â'r rheolwr sydd bob amser ar gael, yn barod i helpu ac yn onest. Maent yn cael adroddiadau ganddynt yn rheolaidd, yn cadw mewn cysylltiad â nhw ac yn anfon unrhyw ddiweddariadau perthnasol. Mae sylwadau eraill yn cynnwys bod y staff yn cefnogi unigolion yn *“extremely well”*. Mae'r bobl yn gwneud y pethau sy'n eu gwneud yn hapus ac sy'n bwysig iddynt. Gallant feithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl maent yn byw gyda nhw, ffrindiau, teulu a'r staff cymorth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus â'r cymorth a gânt gan y staff a'u bod yn cyd-dynnu'n dda â nhw. Mae sylwadau'r staff yn cynnwys bod ansawdd bywyd y bobl yn dda/ gwych, bod y staff yn *“really good with the people we support”* ac *“I feel we are making a massive difference”*. Mae sylwadau'r perthnasau am y bobl yn cynnwys bod ansawdd eu bywyd yn dda, bod y staff yn dda iawn ac yn *“marvellous”* gyda'r bobl, a'u bod yn *“work hard always there, nothing I would complain about they take good care”* o bawb.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Gallant fynegi pryderon a chwynion yr eir i'r afael â nhw ac a gaiff eu datrys. Dywedodd y bobl y gallant *“raise concerns”* ac *“would tell one of staff who would sort it out”*. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer diogelu, chwythu'r chwiban a rhoi gwybod am ddigwyddiadau a'u cofnodi sydd angen eu diweddarau. Mae sylwadau'r staff yn cynnwys, *“total confidence if I had a safeguarding concern could speak to managers and they would deal with it”*.

Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau personol sy'n gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y cymorth y maent yn dymuno ei gael. Mae'r cynlluniau yn canolbwyntio ar yr unigolyn, maent yn glir ac yn gyson i'r staff cymorth eu dilyn a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae sylwadau'r staff yn cynnwys bod y cynlluniau gofal yn mynd "*above and beyond*" a bod pob un ohonynt yn berthnasol ac yn cael ei ddiweddarau. Mae'r cofnodion dyddiol yn darparu manylion am sut ddiwrnod y mae'r bobl wedi'i gael. Caiff siartiau cofnodion rhoi meddyginiaeth eu cwblhau a'u harchwilio i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw faterion. Mae asesiadau risg a chynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel hefyd. Caiff pasbortau ysbyty eu cwblhau sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig pe byddai'r bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty. Caiff y bobl, eu perthnasau ac unigolion eraill sy'n ymwneud â'u gofal eu cynnwys yn y broses adolygu. Dywedodd y rheolwyr a'r staff cymorth wrthym am y bobl a'r ffordd orau i'w helpu. Roedd hyn wedi'i nodi'n glir yn eu cynlluniau a'u canlyniadau ac wedi'i adlewyrchu mewn cofnodion dyddiol manwl.

Caiff y bobl y cymorth sydd ei angen arnynt drwy wasanaeth sy'n ymgynghori â nhw. Caiff arolygon eu cynnal dros y ffôn er mwyn sicrhau bod y bobl yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae'r rheolwyr hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r bobl a gallant fynd i'r afael ag unrhyw faterion. Gwnaethom siarad â'r bobl a ddaeth i ymweld â'r swyddfa i gael sgwrs. Dywedwyd wrthym yr ymatebir i unrhyw bryderon sydd ganddynt. Caiff fforymau eu cynnal i'r bobl eu mynychu er mwyn iddynt ddod i adnabod ei gilydd. Mae gan y bobl bethau i edrych ymlaen atynt megis trefnu eu gwyliau a dathliadau neu fynd i ddiwyddiadau. Dywedodd y rheolwyr a'r staff wrthym eu bod yn ceisio gwneud i'r bobl deimlo'n bwysig drwy roi eu sylw llawn iddynt er enghraifft, pan fyddant yn ymweld â'r swyddfa neu wneud yn siŵr eu bod yn teimlo'n arbennig ar ddiwrnod eu pen-blwydd ac yn ystod dathliadau eraill, gan gynnwys y rhai hynny nad oes ganddynt deuluoedd sy'n ymwneud â nhw. Mae'r rheolwyr a'r staff yn angerddol ac yn wybodus am y bobl y maent yn eu cefnogi ac yn mwynhau gweithio iddynt.

Mae gan y bobl yr un hawliau a chyfrifoldebau â phobl eraill a chânt eu helpu i'w deall. Gwnaethom siarad ac ymweld â'r bobl a oedd yn byw yn eu cartrefi eu hunain. Dywedwyd wrthym fod eu cartrefi yn gynnes ac wedi'u haddurno mewn ffordd ddymunol a'u bod yn hoff o'u cadw'n lân a thaclus, gan gynnal gwaith atgyweirio os bydd angen. Dangosodd un person ei ystafell i mi a dywedodd ei fod am brynu eitem newydd yr oedd eisoes wedi cael dyfynbris amdani a'i fod yn dymuno peintio ei ystafell. Mae gan y bobl eu hallweddi a'u cerbydau eu hunain a gallant ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Lle'r oedd y bobl yn rhannu ag eraill, ystyrir cydnawsedd pan fydd person newydd yn dymuno symud i mewn a chaiff hyn ei drafod â'r bobl a'r staff.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth y maent am ei gael a bod eu canlyniadau'n cael eu cyflawni. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi cynnal ymweliadau â phob swyddfa bob tri mis, yn ogystal ag ymgysylltu â'r bobl a'r staff, edrych ar ddetholiad o gofnodion a llunio adroddiadau i adlewyrchu hyn. Mae hefyd wedi cwblhau adroddiadau ar ansawdd y gofal bob chwech mis sy'n nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda ac unrhyw welliannau sydd angen eu gwneud i'r gwasanaeth. Caiff y datganiad o ddiben a'r polisiâu a'r gweithdrefnau eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gwasanaeth a gaiff ei ddarparu yng Nghymru yn gywir a'r prosesau i'w dilyn. Caiff cofnodion eu cadw o unrhyw ddigwyddiadau, damweiniau, cwynion a materion diogelu sy'n nodi'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw a'r hysbysiadau a anfonwyd i AGC fel sy'n ofynnol. Mae'r bobl, eu perthnasau a'r staff yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw broblemau neu bryderon a all fod ganddynt ac eir i'r afael â nhw yn gadarnhaol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn codi unrhyw broblemau â'r rheolwyr neu staff y swyddfa, sy'n ymatebol iawn ac yn gefnogol. Nododd y staff yr hyn sy'n dda am y gwasanaeth, gan eu bod yn *“support clients and staff well always find them approachable if needed”*, *“support their staff and clients”* a *“they say don't hesitate to ask and they mean it”*.

Caiff y staff eu recriwtio, eu hyfforddi a'u cefnogi yn eu rolau. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth berthnasol er mwyn sicrhau bod arferion recriwtio diogel ar waith. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym am y systemau a fydd ar waith er mwyn sicrhau y bydd y broses recriwtio yn fwy cadarn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ac yn helpu ei gilydd pan fydd angen cyflenwi ar shifftiau. Dywedwyd eu bod wedi cael problemau staffio a bod y gwasanaeth yn ceisio recriwtio staff. Cawsom wybod gan y staff eu bod yn cael eu rotas mewn da bryd, eu bod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau a bod y gwasanaeth yn holi a ydynt am weithio rhagor o oriau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael hyfforddiant ar gyfer cyflawni eu rolau. Mae angen adolygu'r dyddiadau yn y cofnod hyfforddiant a thrafodwyd hyn â'r Unigolyn Cyfrifol. Caiff hapwiriadau, arsylwadau a sesiynau goruchwyllo eu cynnal hefyd, ond dylai'r broses hon fod yn gyson ym mhob gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym ei fod yn *“just lovely. have fun with them, not work it is a pleasure”*, *“really loves their job”* ac *“I enjoy going to work and I never had that before”*. Nododd y staff fod y tîm yn cyd-dynnu'n dda iawn, bod morál y staff yn dda iawn a bod pawb yn gyfeillgar iawn.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

| Statws | Ystyr pob un |
|---------------------|---|
| Newydd | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| Adolygwyd | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| Heb Gyflawni | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| Cyflawnwyd | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|----------|---|--------|
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|----------|--|------------|
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau gofal na'r asesiadau risg yn ystyried unrhyw asesiadau iechyd neu asesiadau perthnasol eraill bob amser. Sicrhau bod y cynlluniau a'r asesiadau risg yn cynnwys gwybodaeth glir a chyson y dylai'r staff i gyd fod yn ymwybodol ohoni. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw'r staff yn cael sesiynau goruchwylio bob tri mis. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio yn rheolaidd. | Cyflawnwyd |
| 73 | Caiff ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol eu cynnal ond nid ydynt yn dangos ei fod wedi siarad â'r bobl na'r staff am y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |
| 80 | Caiff adroddiadau ar yr adolygiad o ansawdd y gofal eu cwblhau, ond nid oedd y rhain wedi'u cwblhau bob chwe mis ar gyfer pob gwasanaeth. Nid ydynt yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol nac yn dangos bod y bobl, eu cynrychiolwyr na'r staff wedi'u cynnwys yn y broses. | Cyflawnwyd |

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 04/08/2023